

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	8 CHWEFROR 2018
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2018/19
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2018 – 31 MAWRTH 2019
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2018/19 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

- 2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau
llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r
Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio Llywodraethu***

- 2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith yma, felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.
- 2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd amser llawn. Mae hyn yn ei wneud yn gynyddol bwysig fod y gwasanaeth yn cyfeirio ei adnoddau i'r llefydd cywir.
- 2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ogystal â chofrestrau risg pob adran. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw. Yn hynny o beth, rydym wedi cydweithio'n agos â'r Uned Yswiriant a Risg, sydd fel rhan o'u rôl yn sicrhau fod y cofrestrau hyn yn cael eu diweddar'u rheolaidd.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, sydd wedi cael ei drafod gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion). Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

2.6 Yn ystod 2018/19, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Sicrhau fod y gwasanaeth yn cyfrannu i adolygiadau Ffordd Gwynedd, fel mae'r angen yn codi, er mwyn sicrhau llwyddiant i newid diwylliant y Cyngor.
- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun.

3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 766 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2018/19. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

	2018/19	2017/18
Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb	55 diwrnod	55 diwrnod
Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol	30 diwrnod	30 diwrnod
Darpariaeth ar gyfer dilyniant	50 diwrnod	80 diwrnod

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2018/19

Archwiliad	Rheswm	Dyddiau
CORFFORAETHOL Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Cynnig cyngor a chefnogaeth i staff a rheolwyr ar faterion risg a rheolaeth fewnol. (Cymerir agwedd Ffordd Gwynedd at holl waith Archwilio Mewnol)	20
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth.	20
Y Fenter Twyll Genedlaethol	Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Archwilio Cymru.	40
Trefniadau Diogelu – Trais yn y Cartref	Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drim Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) i rym. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y Sector Gyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais o'r fath. Mae'n fandadol fod pob gweithiwr yn y Sector Gyhoeddus yn derbyn hyfforddiant yn y maes yma. Gall methiant i gyflawni hyn arwain at gosbau ariannol.	15
Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus– Sefydliadau	Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ar "Ddiogelu" wrth ymweld â sefydliadau.	4
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol	Ar 25 Mai 2018, bydd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR - y Rheoliadau) yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r Rheoliadau (GDPR) yn bygwth dirwyon a chostau sylweddol ar reolwyr data a phroseswyr am fethiant i gydymffurfio â'r Rheoliadau.	15
Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau	Darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau yn y maes Rheoli Gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau.	6
Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol	Daeth Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) i rym 4 Medi 2017. Mae Adran 144A(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol fod ar ffurf a ragnodir drwy reoliadau. Bydd yr archwiliad yn gwirio bod tystiolaeth i gefnogi elfennau penodol o'r hyn sydd yn yr adroddiad.	8

ADDYSG

Adnoddau

Grant Addysg Ôl-16	Disgwyliad yn yr amodau ariannol.	3
Grant Amddifadedd Disgyblion	Nid yw'r GAD wedi ei ymgorffori yn y Grant Gwella Addysg, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân.	10
Grant Gwella Addysg	Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.	15
Statws Cyflogaeth IR35	Ers Ebrill 2017, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus asesu "statws cyflogaeth" pob unigolyn at ddibenion treth er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol.	30
Mynediad i Ysgolion	Gwirio bod trefniadau mynediad i'r dosbarth meithrin neu derbyn yn cyd-fynd â Polisi Mynediad Ysgolion Gwynedd.	15

Disgyblion a Chynhwysiad

Prosiect TRAC	Nod Prosiect TRAC yw cefnogi pobl ifanc 11-24 oed sy'n ymddieithrio oddi wrth addysg, ac mewn perygl o fod yn NEET – nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Bydd yr archwiliad yn adolygu elfennau penodol o fewn y prosiect hwn.	15
---------------	---	----

GwE

GwE – Statws Cyflogaeth – IR35	Ers Ebrill 2017, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus asesu "statws cyflogaeth" pob unigolyn at ddibenion treth er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau treth ac Yswiriant Gwladol.	30
--------------------------------	---	----

Ysgolion

Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Cynradd ac Uwchradd	Llithro o gynllun 2017/18 oherwydd diffyg adnoddau.	25
Ysgolion Cyffredinol	Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori.	10

AMGYLCHEDD

Gwarchod y Cyhoedd

Trefniadau Trwyddedu	Llithro o gynllun 2017/18 oherwydd diffyg adnoddau.	8
Difa Pla	Adolygu trefniadau'r gwasanaeth i sicrhau ei fod yn hunan-gynhaliol.	12

Trafnidiaeth a Gofal Stryd

Trafnidiaeth Gyhoeddus	Adolygiad o gytundebau trafnidiaeth cyhoeddus i brofi gwerth am arian.	12
------------------------	--	----

Tir ac Eiddo'r Cyngor

Cynnal a Chadw Eiddo	Adolygiad o drefniadau ar gyfer derbyn dyfynbrisiau, dyrannu gwaith, monitro a thalu anfonebau.	15
----------------------	---	----

CYLLID

Ar draws yr adran/corfforaethol

Diogelwch Systemau TG	Bwriedir cynnal archwiliadau ar faterion penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth megis "cybersecurity".	12
Rheolaeth Trwyddedau Meddalwedd	Mae cydymffurfio ag amodau a thelerau trwyddedau meddalwedd yn gymhleth a gall y cosbau am fethiant i gydymffurfio fod yn sylweddol.	10
Trefniadau Adfer Trychineb TG	Adolygiad i sicrhau bod trefniadau a chynlluniau priodol mewn lle petai digwyddiad.	10
Gwaredu Cyfarpar TG	Adolygiad o drefniadau gwaredu ac i wirio bod trefniant priodol i ddileu data o'r cyfarpar.	8
Cyfrifeg		
Rhyngwynebau i'r Cyfriflyfr Ariannol	Mae'r cyfriflyfr ariannol yn ddibynol ar ddata o nifer o systemau. Bydd yr adolygiad yn gwirio rhyngwyneb sampl o'r systemau hyn i sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn y cyfriflyfr ariannol.	20
Penisynau a Chyflogau		
Cyfraniadau gan Gyflogwyr	Adolygiad o gyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr i sicrhau bod y cyfraniadau'n cael eu talu ar y raddfa gywir a'u bod yn cael eu cyflwyno i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn amserol.	25
Refeniw		
Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	Disgwylir y bydd cynnal adolygiad o gymorth i'r archwilwyr allanol wrth gynnal eu hadolygiad o'r Cais Sybsidi Budd-dal.	12

System Treth Cyngor - One Digital Portal	Llithro o gynllun 2017/18 oherwydd diffyg adnoddau.	10
Atal a Dileu Dyledion Treth Cyngor	Gall oediad mewn camau adennill arwain at allu'r Cyngor i adennill incwm sy'n ddyledus.	10
Trethi Busnes – Rhestr Brisio	Adolygiad i wirio bod gweithrediad prydlon ar adroddiadau'r Swyddfa Brisio i sicrhau cyflawnrwydd y rhestr brisio a gynhelir.	6
ECONOMI A CHYMUNED		
<i>Adfywio Cymunedol</i>		
Cronfa'r Degwm	Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000.	3
<i>Hamdden</i>		
Canolfannau Hamdden	Adolygiad o drefniadau gweinyddol ac ariannol canolfannau penodol.	40
<i>Morwrol a Pharciau Gweledig</i>		
Ymweliadau di-rybudd – Casglu Incwm	Ymweliadau di-rybudd i gynnal cysoniadau incwm.	10
<i>Strategaeth a Datblygu</i>		
Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	Menter a gaiff ei harwain gan Gyngor Gwynedd a'i gwireddu drwy bartneriaeth aml-asiantaeth gan gynnwys Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru, Antur Waunfawr, Gisda, Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a Galeri Caernarfon. Wedi llithro o gynllun 2017-18 oherwydd diffyg adnoddau.	15
Bwrdd Twf Gogledd Cymru	Trefniadau llywodraethu y Bwrdd – sef cydbwyllgor o blith awdurdodau lleol gyda chynrychiolwyr o bartneriaid allweddol megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach.	15
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT		
<i>Ar draws yr Adran</i>		
Trefniadau Comisiynu	Adolygiad o'r trefniadau comisiynu gan gynnwys cyd-gomisiynu.	30
<i>Cefnogi Pobl</i>		
Grant Cefnogi Pobl	Disgwyliad yn amodau'r grant.	15

Oedolion

Gofal Cartref – Costau Teithio Adolygiad o'r trefniadau yn dilyn archwiliad a gynhaliwyd yn 2015/16 yn sgil cais i adnabod y rheswm dros y gor-wariant. 15

Preswyl a Dydd

Plas Hedd, Bangor Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2018/19 yw'r ail flwyddyn o dair). 12

Plas y Don, Pwllheli Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2018/19 yw'r ail flwyddyn o dair). 12

Cefn Rodyn, Dolgellau Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2018/19 yw'r ail flwyddyn o dair). 12

Hafod Mawddach, Abermaw Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2018/19 yw'r ail flwyddyn o dair). 12

Rheolaeth Tai

Cynllun Troi Tai'n Gartrefi Adolygu'r trefniadau dros gynllun Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru drwy wirio bod y benthyciadau a wnaed yn cwrdd â'r meini prawf. 12

Grant Cyfleusterau i'r Anabl Mae'r grantiau cyfleusterau i'r anabl yn fandadol ac mae elfen dewisol sef y Benthyciad Dewisol Cyfleusterau i'r Anabl (BDCA) - dylai bod y swm ychwanegol yn cael ei roi fel arwystl cyfreithiol ar yr eiddo sy'n destun y grant. 15

PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Plant a Theuluoedd

Grantiau Adolygiad o grantiau penodol. 20

Trefniadau ar Alwad a Brys Bod prosesau wedi eu sefydlu i sicrhau gwasanaeth prydlon ac effeithlon yn unol â gofynion statudol. 15

Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Ran 4 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llithro o gynllun 2017/18 oherwydd diffyg adnoddau. 20

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Ar draws yr adran

Tanciau Disel a Rheoli Disel Wedi ei adnabod yn faes o risg uchel yn y gofrestr risg corfforaethol. 15

Rheoli Gwastraff a Strydoedd

Gorfodaeth Stryd Trefniadau troseddu amgylcheddol ar y cyd â cwmni Kingdom. 12

YGC

Ar draws YGC

Rheoli Llifogydd

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, ac mae ganddo ddyletswyddau statudol reoli perygl llifogydd.

15

CYFANSWM DYDDIAU

766